# Nintedanib ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol, yn fetastatig neu'n rheolaidd yn lleol lle nad yw'r celloedd yn fach

Gorffennaf 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir nintedanib (Vargatef), wedi'i roi gyda chyffur o'r enw docetaxel. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer pobl â math penodol (adenocarsinoma) o ganser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol, yn fetastatig neu'n rheolaidd yn lleol nad yw'r celloedd yn fach sydd wedi gwaethygu ar ôl cemotherapi blaenorol.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Felly, os oes gennych ganser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol, yn fetastatig neu'n rheolaidd yn lleol lle nad yw'r celloedd yn fach â histoleg adenocarsinoma, a bod eich meddyg o'r farn mai nintedanib (gyda docetaxel) yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai nintedanib fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd nintedanib am ei fod yn gweithio'n well na thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG. Er ei fod hefyd yn costio mwy na thriniaethau eraill, cafodd hyn ei gyfiawnhau oherwydd ei fanteision o gymhwyso'r ystyriaethau arbennig.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Caiff canser yr ysgyfaint ei grwpio i ddau brif fath o ganser, gan ddibynnu ar ei ymddangosiad o dan ficrosgop: canser yr ysgyfaint celloedd bach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach. Mae canser a gaiff ei ddisgrifio fel canser sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig wedi ymledu i'r meinweoedd cyfagos neu rannau eraill o'r corff. Pan gaiff ei ddisgrifio fel canser sy'n rheolaidd yn lleol, mae'n golygu ei fod wedi dychwelyd eto yn yr ysgyfaint.

Cyffur gwrthganser yw nintedanib (Vargatef). Mae'n gweithio drwy atal y canser rhag tyfu.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555 (llinell gyngor y Sefydliad), www.blf.org.uk
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040, www.cancerresearchuk.org/about-cancer
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000, www.macmillan.org.uk
- Roy Castle Lung Cancer Foundation, 0333 323 7200, www.roycastle.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1411-1